

**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddona.**  
**A gynhaliwyd ar Nos Fercher Rhagfyr 16 ddeg - 2015**  
**am 7.30 o'r gloch.**

**1. Presennol** - Cyngorwyr Myrddin Roberts (Cadeirydd, MR), Geraint Parry (Clerc), Maldwyn Williams (MW), Dafydd Pritchard (DP), Alwena Roberts (AR), Mark Williams (MA), Lewis Davies (LD), Carwyn Jones (CJ) ac Alwyn Rowlands (AL)

**2. Ymddiheuriadau** - Cyng. Bari Gwilliam, Rhian Hughes a Paul Gash

**3. Datgan Ddiddordeb**

LD ar drafodaeth ceisiadau cynllunio 22C146A, 226A  
MR ac AR ar drafodaeth Gwelfryn, Llanddona - aelodau o'r teulu.

**4. Cofnodion**

Penderfynwyd derbyn y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 fed o Dachwedd ar ôl newid un pwynt fel rhai cywir gan Cyng. D Pritchard, eilio gan Cyng. M Williams.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**

- 5.1 **Fynwent Llanddona** - LD wedi anfon ymlaen gwybodaeth ddiweddar gan aelod o'r Cyngor Sir- lle mae 25 o hen feddau wedi ei darganfod yn y cae hyd yma. Mae'n debygol na lle i tua 100 o feddau newydd fydd am y dyfodol.
- 5.2 **Cerrig ger Llain Gron** - cerrig dal ar ochr y ffordd. MR i drafod y mater gyda'r perchennog.
- 5.3 **Baw Cŵn** - swyddog o'r Heddlu yn bresennol lle cytunwyd y darlun am rybuddion.
- 5.4 **Biniau lleol** - i gael gosod ger Creigle a Tan Ffordd. LD - oherwydd toriadau, ni all y Cyngor Sir ffitio biniau newydd ond maent yn fodlon ail lleoli biniau.
- 5.5 **Llwybr Tai Bach** - adroddiad wedi er dderbyn, lle maent wedi penderfynu gwneud Gorchymyn diwygio i ddangos y llwybr fel llwybr troed ar y map datganiad swyddogol wrth anfon cyfarwyddyd i adran gyfreithiol y Cyngor. Clerc i ofyn am gopi electronic. Clerc i anfon llythyr o ddiolch.
- 5.6 **Cyfarfod Peilonau** - diwrnod cau ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad 16/12/15. Cyngor Sir wedi pleidleisio yn erbyn y cynigion.
- 5.7 **Band eang** - dim newyddion pellach.
- 5.8 **Eisteddfod Genedlaethol Môn** - Clerc i drefnu cyfarfod ar y cyd gyda Cyngor Cymuned Llangoed a Penmon yn y flwyddyn newydd er mwyn cael trefnu pwyllgor ayyb. Penderfynwyd hysbysebu'r cyfarfod ar "Facebook" a gosod posteri.
- 5.9 **Cae Maes Mawr** - swyddog o'r Cyngor Sir wedi bod ar y safle, lle nodwyd bod y giât mochyn wedi ei thynnu a giât fach wedi ei osod yn ei le. Dyletswydd y trefeddiannwr ydi cynnal strwythur i safon na sy'n amharu efo hawliau'r cyhoedd. Am gadw golwg ar y safle.

**6. Adroddiad gan y Cynghorydd**

- LD - i drefnu cael arolwg gan y Cyngor Sir ar y lonydd lleol. Twll yn y ffordd ger Tan Fynwent a phant yn y ffordd ger Arwel.
- LD - llifogydd wedi cau'r ffordd ger Tŷ Du. CJ - mae'r toriadau dros y blynnyddoedd ar Adran Priffyrdd yn cael effaith mawr ar waith cynnal a chadw ffosydd ayyb nawr. Clerc i anfon llythyr a diolch i adran priffyrdd.
- CJ - oherwydd y nifer o gyfarfodydd mae'r cyngorwyr angen ymuno yn y Ward, maent wedi cytuno creu rota a fydd o leiaf yn caniatáu cynghorydd i fod yn bresennol ym mhob cyfarfod.
- AR - edrych ar dreth y Cyngor Sir. Aseiad Corfforaethol wedi ei gwblhau, wrth adnabod bod y Cyngorwyr yn cyd-weithio yn dda gyda'i gilydd.

**7. Ceisiadau Cynllunio**

- 22C146A - Dymchwel y gweithdy presenol ynghyd a chodi gweithdy newydd yn ei le yn Glan Rhyd, Llanddona - dim gwrthwynebiad.
  - 22C226A - Cais llawn ar gyfer codi annedd ar dir yn Buarth Cyttir, Llanddona - penderfynwyd codi'r pwynt bod y cylch troi a ddangosir ar y llun yn ffurfio rhan o dir comin. Dim gwrthwynebiad.
- Er Gwybodaeth**
- 22C225 - Cais llawn ar gyfer codi annedd a modurdy ynghyd a chreu mynedfa i gerbydau ar dir yn Brookfield, Llanddona - wedi ei caniatáu.

**8. Plot Glandŵr**

Clerc wedi cyfarfod ein cyfreithiwr, lle maent wedi anfon llythyr i gyfreithiwr yr ymgeisydd yn gofyn iddynt gael y caniatâd gan Gaerdydd o gylch ail-wynebu tir comin.

MR - angen bod yn glir nad ydym yn dod yn rhan o weithred anghyfreithlon. Mae rhaid i'r ymgeisydd cael yr hawl gan Gaerdydd cyntaf cyn cael yr hawddfaint gan y Cyngor Cymuned.

### **9. Tir Comin**

9.1 Dilyn y cais a godwyd gan SH, penderfynwyd gadael y ffens ar ddiwedd llwybr gyferbyn ac Arwel.

9.2 Cytunwyd i'r gwaith gwirfoddoli ar y Rhos i gael ei wneud ar 16/01/16.

9.3 SH yn cyhoeddi rhagor o waith cadwraeth mewn 3 ardal – i'r gogledd o'r Ysgol, i'r gorllewin o'r Ysgol a de o Ponc y Felin.

9.4 Derbyniwyd e-bost oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru am y gwaith cyfredol ar Rhos Llaniestyn wrth dynnu sylw i'r gwaith sydd ddim wedi ei ganiatáu ar gyfer agor ffos i ryddhau dŵr o'r cae cyfagos. Hefyd mae'r ffens gerllaw wedi ei ail-adeiladu. Clerc i anfon llythyr i'r fferm gyfagos.

9.5 Derbyniwyd cais gan Scottish Power i leihau gwrych i 2 metr o uchder ger y maes chwarae. Cytunwyd i ofyn iddynt gael gwared â'r toriadau.

### **10. Cyfrifon**

Dim mater i godi

### **11. Gohebiaeth**

E-bost - Cyngor Sir – Tai Bach

E-bost – Llwybr Arfordirol

E-bost - Heddlu

E-bost – Cyngor Sir, Cae Maes Mawr

E-bost - Glyndŵr

E-bost – Biniau Ysbwrial

E-bost – Rhos Llaniestyn

Llythyr - Swayne Johnson - Gwelfryn

Llythyr – Cyngor Sir, adroddiad Llwybr Tai Bach

Apêl - Urdd

### **12. UFA:**

12.1 Plismon lleol yn bresennol lle drafodwyd digwyddiadau diweddaraf.

12.2 (12/15) MR ac AR yn gadael y cyfarfod. Trafodwyd y cais trwy gyfreithiwr berchennog Gwelfryn, yn gofyn am hawl tramwy ffurfiol dros dir comin gerllaw. Byddai hyn yn ffurfioli'r trefniant mynediad i'r eiddo a sicrhau trefniant mynediad digonol i'r darn o dir mae'r perchennog yn bwriadu cadw ar ôl gwerthu rhan o'r tir ar annedd. Penderfynwyd bod hawddfaint i'r porth presennol. Clerc i ofyn i gyfreithiwr yr ymgeisydd i fod yn fwy penodol drwy gyflawni mesuriadau i'r ardal dan ystyriaeth. Nodwyd bod llwybr cyhoeddus yn croesi'r tir yma.

12.3 (12/15) MW - yn ystod glaw trwm, mae dŵr yn rhuthro lawr y ffordd ger eiddo Glandŵr tuag at fwthyn Tyddyn Waun. Amau bod y ffosydd gerllaw wedi blocio. LD i drafod y mater gyda'r Cyngor Sir.

12.4 MW - gofyn i nodi dyddiad unrhyw bwnc newydd a thrafodwyd o hyn ymlaen. Pawb yn gytûn.

12.5 (12/15) Wedi derbyn cwyn bod perchennog Cherry Tree Cottage wedi plannu coed ar glaswellt ger y lôn sydd yn edrych tu hwnt i'r ffin. Penderfynwyd monitro'r sefyllfa.

12.6 (12/15) Llwybr Arfordirol - derbyniwyd gwybodaeth bod tîm Llwybr Arfordirol yn y broses o drafod y posibilrwydd o greu rhan newydd o lwybr yn Llanddona, ymestyn o Bryn Offa hyd at Fedw Fawr, tua 3km o hyd. Swyddog o'r tîm i fynychu ein cyfarfod nesaf.

12.7 Gwarchod y Cymuned - Heddlu yn gobeithio sefydlu grŵp llywio er mwyn datblygu a pharhau gwaith y grŵp.

12.8 Wedi derbyn cwynion ynghlyn ar ordyfiant o ardd Pen Helyg a Awelfryn (Arfryn) sydd yn gwneud y palmentydd cyfagos yn beryglus i gerddwyr.

### **13. Dyddiad cyfarfod nesaf:**

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ei gyfraniad.

Daeth y cyfarfod i derbyn am 9.50 o'r gloch.

Penderfynwyd trefnu cyfarfod nesaf ar 20/01/16 am 7.30 yn Capel Peniel.

Llofnod y Cadeirydd

Dyddiad